Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Cardiff Beauty Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 7 Gorffennaf 2025
Dyddiad cyhoeddi: 7 Hydref 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80633-481-0
© Hawlfraint y Goron 2025

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8

- Ansawdd Profiad y Claf ........ 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 11
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 14

4. Y camau nesaf ........ 15

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 16

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 17

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 20

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cardiff Beauty Clinic ar 7 Gorffennaf 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan ddau o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac un aelod o staff AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o bum holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Roedd trefniadau cadarn ar waith i gefnogi preifatrwydd ac urddas y cleifion yn llawn, gan roi sylw dyledus i'w cydraddoldeb a'u hawliau. Roedd yr holl adborth a gawsom gan y cleifion yn gadarnhaol ac yn amlinellu'r cymorth roeddent wedi'i gael gan y lleoliad. Gwelsom fod y staff yn y lleoliad yn rhoi gwybodaeth glir a chryno i'r cleifion cyn, yn ystod ac ar ôl triniaeth, a chafwyd cadarnhad o hyn gan y cleifion. Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel claf ac roedd y systemau a oedd ar waith i gynllunio gofal yn cael eu rheoli'n dda yn y lleoliad.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl adborth a gawsom gan gleifion yn gadarnhaol
- Roedd hanesion meddygol a newidiadau i amgylchiadau yn cael eu trafod cyn i gleifion gael unrhyw driniaeth.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y lleoliad mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas. Roedd pob ardal yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg. Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno bod y lleoliad yn 'lân iawn' a bod y staff yn dilyn gweithdrefnau atal a rheoli heintiau.

Dangosodd y rheolwr cofrestredig ei bod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad i sicrhau bod y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn ddiogel. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi nad oedd gan y lleoliad gontract cyfredol â Chynghorydd Diogelu rhag Laserau. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd y rheolau lleol a'r asesiadau risg laser yn gyfredol. At hynny, gwelsom nad oedd hyfforddiant na gweithdrefnau diogelu ar waith.

Roedd peiriant laser y lleoliad hwn wrthi'n cael ei wasanaethu gan beiriannydd, felly ni allem archwilio'r peiriant ar waith. Cyn i unrhyw driniaethau laser gael eu darparu yn y dyfodol, gwnaethom nodi ei bod yn ofynnol i'r lleoliad roi sicrwydd addas i AGIC ei fod wedi mynd i'r afael â'r materion a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nid oedd gan y lleoliad gontract cyfredol ar waith â Chynghorydd Diogelu rhag Laserau, a oedd yn golygu nad oedd unrhyw asesiad risg, rheolau lleol

na thystiolaeth gyfredol o ymweliad diweddar gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau
- Wrth edrych ar becyn cymorth cyntaf y lleoliad, gwnaethom nodi bod rhwymynnau yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio, ynghyd â hylif lleddfu llosg, a ddefnyddir i drin unrhyw anafiadau posibl sy'n gysylltiedig â laser, yr oedd y dyddiad defnyddio arno wedi mynd heibio ym mis Hydref 2020.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n trin cleifion yn cael hyfforddiant ar ddiogelu hyd at y lefel ofynnol
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth o adroddiadau gwasanaethu y peiriannydd ar gyfer y peiriant laser.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Roedd y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion yn gadarn
- Roedd y trefniadau diogelwch ar gyfer y peiriant laser a glendid y practis yn gynhwysfawr.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y trefniadau arwain a rheoli a oedd ar waith yn foddhaol ar gyfer maint y gweithlu. Roedd polisïau clir a chynhwysfawr ar waith i roi canllawiau i'r staff, gan gynnwys polisi cwynion a pholisi hyfforddiant. Roedd y prosesau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant yn briodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Roedd y systemau a oedd ar waith i gofnodi ac ymateb i adborth a chwynion gan gleifion yn briodol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

**Adborth gan gleifion**
Roedd yr holl adborth a gawsom gan gleifion yn gadarnhaol, a dywedodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Dywedodd un claf:

> *"Yn llawn gwybodaeth ac yn broffesiynol iawn."*

**Urddas a pharch**
Gwelsom fod y staff yn cynnal urddas y cleifion ac yn eu trin â pharch. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch, bod mesurau wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd a bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod eu triniaethau.

Roedd y mesurau preifatrwydd y gwnaethom eu nodi yn ystod ein harolygiad yn cynnwys darparu tywelion i gleifion yn ystod triniaethau, cau'r bleinds ar y ffenestri yn ystod triniaethau, a chau'r drysau trwm er mwyn sicrhau na allai unrhyw un arall weld y cleifion na mynd i mewn i'r ystafell wrth iddynt gael triniaeth. Roedd pob ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn yr ystafell drin er mwyn sicrhau na allai unrhyw un arall glywed y sgyrsiau.

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**
Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys y risgiau, y dewis o wahanol driniaethau, a'r gwasanaethau ôl-ofal. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys a bod y staff yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau.

Roedd ffyrdd iach o fyw yn cael eu hyrwyddo i'r cleifion a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys trafodaethau am groen iach a diogelwch rhag golau uwchfioled cyn ac ar ôl triniaeth. Roedd gwybodaeth hybu iechyd hefyd ar gael ar wefan y lleoliad, yr oedd y staff yn cyfeirio cleifion ati.

Gwnaethom edrych ar gofnodion pum claf yn ystod ein harolygiad ac roedd pob un o'r cofnodion hyn yn cynnwys tystiolaeth o ffurflen ymgynghori wedi'i llofnodi a oedd wedi'i chwblhau cyn cynnal unrhyw driniaeth. Roedd cydsyniad ar sail gwybodaeth hefyd wedi cael ei nodi ar gyfer pob triniaeth yn y cofnodion a welsom. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn rhoi cydsyniad wedi'i lofnodi cyn

cael pob triniaeth. Roedd costau triniaethau hefyd wedi'u cynnwys ar wefan y practis ac roeddent yn cael eu hesbonio cyn i'r claf gael cwrs o driniaeth.

**Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion y lleoliad ar gael i'r cleifion ar gais.

Roedd y rhan fwyaf o wybodaeth a oedd ar gael i gleifion yn uniaith Saesneg. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Dywedodd y staff wrthym y byddai unrhyw glaf sy'n dymuno sgwrsio mewn iaith arall yn dod â pherthynas neu gyfieithydd gydag ef neu'n defnyddio adnoddau cyfieithu ar-lein.

Yn gyffredinol, roedd cleifion yn trefnu apwyntiadau ar-lein drwy wefan y practis neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, gallai'r cleifion hynny nad oedd ganddynt fynediad digidol drefnu apwyntiadau neu gael ymgynghoriad dros y ffôn.

**Cynllunio a darparu gofal**

Roedd cofnodion y pum claf y gwnaethom edrych arnynt yn ystod yr arolygiad yn gynhwysfawr ac yn hawdd eu deall. Roedd y cofnodion yn dangos bod hanes meddygol yn cael ei wirio cyn pob triniaeth a bod y staff yn cynnal prawf croen ar ddechrau pob cwrs o driniaeth. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn iddynt gael triniaeth, a'u bod wedi cael prawf croen. Cadarnhaodd y cleifion hefyd eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir a chanllawiau ar yr hyn y dylent ei wneud mewn argyfwng.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Gwelsom fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth priodol ar waith, ochr yn ochr â ffyrdd cadarn o amddiffyn y staff a'r cleifion rhag gwahaniaethu. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethom nodi enghreifftiau boddhaol o'r ffordd roeddent yn trin cleifion yn gyfartal ac yn cynnal eu hawliau. Roedd hawliau cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy eu galluogi i ddewis y rhagenwau a'r enwau a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion.

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Gwelsom fod systemau cadarn ar waith i ofyn am adborth ac ymateb iddo. Roedd y gwasanaeth yn cysylltu'n awtomatig â chleifion ar ôl eu hapwyntiad i ofyn am adborth ysgrifenedig, ac roedd hefyd yn gofyn am adborth ar lafar, lle bo angen. Roedd pob darn o adborth gan gleifion yn cael ei adolygu gan y staff yn syth, ac

roedd trosolwg cyffredinol yn cael ei gynnal bob blwyddyn er mwyn nodi tueddiadau neu themâu allweddol. Roedd adborth gan gleifion yn cael ei gyhoeddi ar-lein er mwyn codi ymwybyddiaeth gyffredinol. Cadarnhaodd y staff y gallai cleifion ddewis rhoi adborth yn ddienw.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Yr Amgylchedd, Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Gwelsom fod amgylchedd diogel yn y lleoliad. Roedd y lleoliad hwn y drws nesaf i bractis deintyddol ac yn defnyddio mynedfeydd diogel y practis hwn. Roedd clo cyfunrhif wedi'i osod ar yr ystafell a ddefnyddir i storio'r peiriant laser er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel.

Gwelsom fod yr adeilad yn lân ac nad oedd unrhyw annibendod na pheryglon neu risgiau amlwg. Roedd yr holl dystysgrifau diogelwch ar gyfer gwifrau trydanol a phrofion offer cludadwy ar gael ac roedd y rhagofalon diogelwch tân wedi'u hamlinellu mewn polisi dynodedig. Gan fod y lleoliad hwn yn rhannu'r adeilad â'r practis deintyddol y drws nesaf a gwasanaethau eraill, roedd pob lleoliad yn rhannu'r un trefniadau diogelwch tân. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'r hyn y dylid ei wneud mewn argyfwng.

Gwelsom fod gan y practis becyn cymorth cyntaf a oedd yn cynnwys eitemau addas ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Fodd bynnag, roedd dyddiadau defnyddio rhai o'r eitemau wedi mynd heibio. Nid oedd unrhyw restr wirio ar waith i fonitro'r eitemau yn y pecyn. Oherwydd yr effaith bosibl ar gleifion, gwnaethom gyflwyno Hysbysiad Diffyg Cydymffurfio i Cardiff Beauty Clinic. Mae manylion y camau a gymerwyd gan AGIC a'r lleoliad mewn ymateb i hyn i'w gweld yn Atodiad B.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Roedd prosesau priodol ar waith i lanhau a dihalogi'r ardaloedd trin a'r cyfarpar yn effeithiol. Gwelsom fod menig yn cael eu gwisgo yn ystod triniaethau ac roedd y staff yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl triniaethau fel mater o drefn. Roedd y prosesau atal a rheoli heintiau a dihalogi wedi'u nodi'n addas ym mholisi rheoli heintiau'r lleoliad. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei drin yn gywir a'i waredu drwy gontract trin gwastraff.

Dywedodd pob un o'r cleifion fod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau a bod y lleoliad yn 'lân iawn'.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**
Roedd gan y lleoliad bolisi diogelu addas ar waith, a oedd yn gyfredol ac yn cynnwys manylion y tîm diogelu lleol.

Roedd y polisi yn nodi'n glir y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai pryder am ddiogelu. Hefyd, gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu oedolion yn y gorffennol, ond nid oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n trin cleifion yn cael hyfforddiant ar ddiogelu hyd at y lefel ofynnol.**

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**
Cyn ein harolygiad, dywedwyd wrthym fod unig beiriant laser y lleoliad hwn wedi cael ei anfon at beiriannydd i'w atgyweirio. Felly, ni fu modd i ni weld y peiriant ar waith nac edrych ar yr adroddiadau gwasanaethu. Unwaith y bydd y peiriant laser wedi cael ei ddychwelyd i'r lleoliad, rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu adroddiadau gwasanaethu'r peiriannydd ar gyfer y peiriant hwn i AGIC.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth o adroddiadau gwasanaethu y peiriannydd ar gyfer y peiriant laser.**

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom nad oedd gan y lleoliad gontract cyfredol â Chynghorydd Diogelu rhag Laserau. Roedd y gwaith papur a welsom yn nodi mai ym mis Ionawr 2020 y cafodd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau diwethaf ei gontractio gan y lleoliad, a bod y contract hwnnw wedi dod i ben ym mis Ionawr 2021. Roedd hyn yn golygu nad oedd arbenigwr perthnasol ym maes goleuni pwls dwys wedi bod yn ymwneud â gwaith y lleoliad ers hynny. Y dyddiad ar asesiad risg laser y lleoliad oedd mis Ionawr 2020 ac nid oedd dyddiad adolygu wedi'i nodi. At hynny, nid oedd y rheolau lleol ar gyfer y lleoliad wedi cael eu diweddaru ers mis Ionawr 2020. Dywedodd y practis wrthym mai yn 2016 y gwnaeth y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ymweld â'r lleoliad yn bersonol ddiwethaf.

Oherwydd yr hepgoriadau hyn, ni chawsom sicrwydd bod y triniaethau a ddarperir yn cydymffurfio â'r canllawiau diweddaraf ar ddefnyddio peiriant laser yn ddiogel ac, felly, roedd hyn yn peri risg i ddiogelwch y cleifion a oedd yn cael triniaethau yn y lleoliad hwn. Gan nad oedd y peiriant laser ar gael nac ar y safle ar y pryd, cawsom sicrwydd na allai hyn effeithio ar unrhyw gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom ofyn i'r lleoliad beidio â defnyddio'r peiriant laser nes bod y materion hyn wedi cael eu datrys. Gwnaethom gyflwyno Hysbysiad Diffyg Cydymffurfio i Cardiff Beauty Clinic, ac mae manylion y camau a gymerwyd gan AGIC a'r lleoliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad B.

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr laser. Roedd yn ymddangos bod cyfarpar amddiffyn y llygaid mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod sbectolau yn cael eu gwirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod.

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd protocolau triniaeth unigol ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriant laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu creu a'u cymeradwyo gan ymarferydd meddygol.

Roedd yr unig weithredwr laser wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar y peiriant a oedd yn cael ei ddefnyddio, ac roedd ei hyfforddiant craidd gwybodaeth hefyd yn gyfredol.

Roedd un ystafell yn cael ei defnyddio ar gyfer triniaethau laser yn y lleoliad. Gellid cloi'r ystafell hon ac roedd arwyddion priodol ar y drws i ddangos bod triniaethau laser yn cael eu cynnal yn yr ystafell. Roedd yr arwyddion hefyd yn nodi na ddylid mynd i mewn i'r ystafell pan fyddai triniaethau yn cael eu rhoi. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod drws yr ystafell drin yn cael ei gloi pan oedd y peiriant yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Dywedwyd wrthym fod y peiriant wedi cael ei gadw'n ddiogel ac mai dim ond gydag allwedd y gellid ei actifadu, sy'n atal unrhyw achosion o weithredu heb awdurdod.

Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion fod pob claf yn ein sampl wedi cael prawf croen a bod cydnawsedd ei groen wedi cael ei brofi cyn iddo gael ei gwrs o driniaethau.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**
Roedd adborth gan gleifion yn cael ei adolygu a'i drafod yn rheolaidd yn y lleoliad er mwyn llywio gwelliant parhaus. Roedd archwiliadau o gofnodion cleifion hefyd yn cael eu cynnal yn ystod pob cylch triniaeth.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gallai'r lleoliad ddarparu datganiad blynyddol i AGIC ar gais.

**Rheoli cofnodion**
Gwelsom dystiolaeth o brosesau cadw cofnodion da yn y sampl o bum cofnod a welsom. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar bapur a'u storio mewn cabinet diogel lle na allai'r cyhoedd gael gafael arnynt. Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am oruchwylio mynediad at y cofnodion. Gwelsom dystiolaeth fod pob cofnod yn cael ei waredu'n ddiogel, pan fo angen.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Un aelod o staff oedd yn rheoli'r lleoliad hwn ac yn gweithredu'r peiriant laser. Roedd y fframweithiau llywodraethu ac atebolrwydd a oedd ar waith yn addas ar gyfer maint a lefelau staffio'r lleoliad.

Gwelsom fod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn glir ac yn gynhwysfawr. Roedd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a thystysgrifau cofrestru AGIC i'w gweld yn y lleoliad.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Roedd cwynion gan gleifion yn cael eu goruchwylio gan yr aelod unigol o staff sy'n rheoli'r gwasanaeth. Pe bai'r cwynion yn ymwneud yn uniongyrchol â'r aelod hwn o staff, byddai'r cleifion yn cael eu hannog i roi gwybod i AGIC amdanynt neu byddai unigolyn sy'n gweithio yn y gwasanaethau eraill sydd wedi'u lleoli yn yr adeilad yn goruchwylio'r ymchwiliad. Roedd y weithdrefn gwyno yn briodol, yn gyfredol ac yn cyfeirio at AGIC fel ffordd o fynegi pryderon. Nid oedd unrhyw gwynion i ni eu hadolygu yn ystod yr arolygiad, ond cawsom sicrwydd drwy'r broses gwyno a oedd ar waith. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw gŵyn ar lafar yn cael ei nodi yn y llyfr cwynion.

**Cynllunio'r gweithlu, recriwtio a hyfforddiant**
Gwelsom fod proses recriwtio ar waith yn y clinig. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gynlluniau recriwtio ar gyfer y dyfodol agos.

Roedd y lleoliad hwn yn cynnwys un gweithredwr laser a oedd wedi cwblhau ei hyfforddiant craidd gwybodaeth a hyfforddiant ar ddefnyddio peiriant laser y lleoliad. Roedd yr aelod hwn o staff wedi cael gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fel y nodir mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, roedd y lleoliad yn adeilad a rennir lle roedd diogelwch tân a chymorth cyntaf yn cael eu darparu gan y gwasanaethau eraill. Felly, nid oedd angen i'r unig gyflogai feddu ar y cymwysterau hyn.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni chafodd unrhyw bryderon uniongyrchol eu datrys yn ystod yr arolygiad. | | | |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Cardiff Beauty Clinic

## Dyddiad yr arolygiad: 7 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| | Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Nid oedd gan y lleoliad gontract cyfredol ar waith â Chynghorydd Diogelu rhag Laserau, a oedd yn golygu nad oedd unrhyw asesiad risg, rheolau lleol na thystiolaeth gyfredol o ymweliad diweddar gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau ar unwaith i roi manylion i AGIC am gontract cyfredol â Chynghorydd Diogelu rhag Laserau; ochr yn ochr â chopïau o asesiad risg laser a rheolau lleol cyfredol ar gyfer y peiriant laser cofrestredig. | Rheoliad 19 (1) (b) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br><br>Adran 24 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 | Rydym wedi cysylltu â Chynghorydd Diogelu rhag Laserau a chaiff contract ei lunio pan fydd y peiriant laser wedi'i ddychwelyd ar ôl cael ei wasanaethu.<br><br>Nid yw ein peiriant laser ar y safle ar hyn o bryd ac ni all cynghorydd diogelu rhag laserau ymweld â'r lleoliad na chynnal asesiad risg oherwydd hynny. | Charlotte McNeill | Cyn gynted ag y bydd y peiriant laser wedi cael ei ddychwelyd gan y peiriannydd gwasanaethu. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Caiff y rheolau lleol eu diweddaru pan fydd y peiriant laser wedi'i ddychwelyd ar ôl cael ei wasanaethu.<br><br>Ni chaiff unrhyw driniaethau eu cynnal nes y caiff y rhain eu cwblhau. | | |
| **2.** | Wrth edrych ar becyn cymorth cyntaf y lleoliad, gwnaethom nodi bod rhwymynnau yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio, ynghyd â hylif lleddfu llosg, a ddefnyddir i drin unrhyw anafiadau posibl sy'n gysylltiedig â laser, yr oedd y dyddiad defnyddio arno wedi mynd heibio ym mis Hydref 2020. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi tystiolaeth i AGIC bod y pecyn cymorth cyntaf wedi cael ei wirio, a bod eitemau perthnasol newydd wedi'u hychwanegu yn lle unrhyw eitemau yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio. | Rheoliad 3 o Reoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981 | Gwnaethom archebu eitemau newydd ar gyfer y pecyn cymorth cyntaf ac maent wedi cyrraedd.<br><br>Mae rhestr wirio wedi cael ei llunio i sicrhau y caiff gwiriadau eu cynnal. | Charlotte McNeill | Wedi'i gwblhau. |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau): Charlotte McNeill**

**Swydd: Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad: 15 Gorffennaf 2025**

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Cardiff Beauty Clinic

## Dyddiad yr arolygiad: 7 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| | Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu oedolion yn y gorffennol, ond nid oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod y pum mlynedd diwethaf. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n trin cleifion yn cael hyfforddiant ar ddiogelu hyd at y lefel ofynnol. | Rheoliad 21, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | | | |
| 2. | Roedd unig beiriant laser y lleoliad hwn wedi cael ei anfon at beiriannydd i'w | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth o adroddiadau | Rheoliad 15 (2), Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | atgyweirio. Felly, ni fu modd i ni weld y peiriant ar waith nac edrych ar yr adroddiadau gwasanaethu. Unwaith y bydd y peiriant laser wedi cael ei ddychwelyd i'r lleoliad, rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu adroddiadau gwasanaethu'r peiriannydd ar gyfer y peiriant hwn i AGIC. | gwasanaethu y peiriannydd ar gyfer y peiriant laser. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**